Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 07-12-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Geraint Owen, Gwyn Jones, Arthur Williams, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

| | |
|---|---|
| Eitem Rhif 6 – Cynllunio<br>Cyfeirnod: 0/49168 | Cyng Gwyn a Cyng Wendy |

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (02/11/21).

   Cynigwyd cofnodion 02/11/21 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Cae Chwarae:**

     Y Clerc wedi e-bostio Dave Dudley, Arolygydd Maes Chwarae ynglyn â cael arwyddion i'r cae chwarae, heb dderbyn ymateb.

   - **Toiledau'r Pentref:**

     Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Kerry Owen, CBSC. Y Clerc i holi Kerry am y ddau gymuned arall sydd yn cyflogi glanhawyr, cysylltu gyda nhw i dderbyn rhagor o wybodaeth.

     Cyng Gwilym a Cyng Gwyn wedi edrych ar y swydd ddisgrifiad a Cyng Gwyn yn mynd i ddiweddaru y gwybodaeth.

- **Mynwent yr Eglwys:**

  Trafododd Cyng Ceri y cynlluniau arfaethedig ar gyfer mynwent yr eglwys a'r grant sydd ar gael. Mae angen cais am ganiatâd adeilad rhestredig. Yr Eglwys sydd yn berchen ar y wal i Heol Martin a'r ardaloedd eraill yn eiddo'r Cyngor. Mae angen edrych ar fynediad i'r anabl cyn gwneud cais am y grant.

  Gofynnodd Cyng Ceri a fyddai'r Cynghorwyr o blaid ymholiad cyn ymgeisio. Cynigiodd Cyng Arthur wneud ymholiad. Eiliodd Cyng Gwyn ei gynnig. Cytunodd pob Cynghorydd. Cyng Ceri i baratoi'r cyn-gais ac yna rhannu gyda'r Cynghorwyr i wneud penderfyniad. Cytunodd pob Cynghorydd.

- **Nadolig 2021:**

  - **Cystadleuaeth Ffenestr Nadolig:**

    Dyddiad cau – 18/12/21
    Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i ymweld i farnu - 20/12/21.
    Penderfynwyd cael talebau o'r Bee eto fel gwobrau.

  - **Coeden Nadolig:**

    Y goeden wedi cyrraedd ac yn cael ei gosod dydd Sadwrn. Y goeden wedi ei rhoi fel anrheg gan Ystâd Bodnant eto eleni.

  - **Parti Nadolig y Cyngor Cymuned:**

    Penderfynwyd gohirio cyfarfod tan yr Haf pan fydd pethau yn well.

7.45pm - Cyng Gwyn yn ymuno a'r cyfarfod.

- **Polisïau:**

  Cyng John Emlyn wedi addasu y polisïau oherwydd diffygion. Y Cynghorwyr yn hapus ac yn diolch i Cyng John Emlyn am ei waith. Cyng Austin yn derbyn y polisïau a Cyng Geraint yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn derbyn.

- **Cartrefi Conwy: polisi tai:**

  Trafodwyd yr ymateb a gafwyd gan Cartrefi Conwy. Cyng Geraint yn siomedig bod yr e-bost yn Saesneg. Cyng Austin wedi gwneud ymholiadau. Cyng Geraint i ddrafftio ymateb i'r e-bost yma. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **Awdit 20/21:**

  Dim diweddariad gan y Clerc.  Y Cynghorwyr am weld y gwaith yn cael ei orffen.  Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddfa Archwilio i esbonio.

6. **CYNLLUNIO**

Cyfeirnod: 0/49152
Ymgeisydd: Mr E Jones
Cynllun: Cynnig i ymestyn adeilad amaethyddol presennol a chodi adeilad amaethyddol newydd
Safle: Gosen Farm, Ffordd Pennant, Llanddoged, Llanrwst, LL26 0DQ

Dim sylw.

Dyddiad cau: 16/12/2021

Cyfeirnod: 0/49168
Ymgeisydd: Arfon Jones
Cynllun: Estyniad unllawr arfaethedig ac addasiadau
Safle: Waen Fechan Ffordd Gyffylog Eglwysbach LL28 5SD

Cyng Gwyn a Cyng Wendy heb gymryd rhan yn y drafodaeth.

Dim sylw.

Dyddiad cau: 23/12/2021

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £5,815.88
Angladdau - £1,399.70 (angen talu Gerallt Evans Metalcraft Ltd - £912.00)
Cadw - £2,078.36

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Un Llais Cymru (Tanysgrifiad) - £147.00
- Zurich Municipal (Yswiriant) - £416.94
- Cradur.com (Safle We) - £33.00
- CBSC (Sgip) - £230.00
- Fflag newydd y pentref  - £90.60

**Fflag y Pentref:**

Cafwyd trafodaeth am y fflag.  Y fflag i'w dynnu i lawr diwedd mis Hydref pan fydd y clociau yn troi ac wedyn i fyny yn ôl pan fydd y clociau yn troi eto.  Y fflag hanner i fyny pan fydd angladd,

Suly Cofio, ac i fyny ar gyfer dathliadau megis Dydd Gwyl Dewi ayyb. Cyng Arthur i drafod gyda Paul. Y fflag newydd i'w roi i fyny yn y flwyddyn newydd.

**Angladdau:**
Arwel Williams (Torri Glaswellt) - £345.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC - Asesiad risg ar fynwentydd:**
  Cyng John Emlyn a Cyng John Lloyd i edrych os oes angen asesiad risg arnom.

- **E-Bost: CBSC - Fforwm Cyngor Tref a Chymuned:**
  Y Clerc, Cyng John Emlyn a Cyng Gwilym i fynychu.

- **E-Bost: Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Swyddog Ariannu i Gonwy:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Prom Ally - Coats4Kids Conwy – Gwybodaeth i Sefydliadau:**
  Cyng Ceri wedi hysbysebu ar y dudalen Facebook.

- **E-Bost: CBSC - Llythyr gan yr Arweinydd:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Cronfa Cyfleusterau ar Lawr Gwlad Cymru:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Cronfa Fenthyciadau Newydd i Gefnogi Prynu Asedau Cymunedol yng Nghymru:**
  Cafwyd trafodaeth. Cyng Austin i siarad gyda Pennaeth Adran Hamdden CBSC ynglyn â grantiau.

- **E-Bost: Cynlluniad Cymru - Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2022-23:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CCBC – Cau Cilffordd 34 Eglwysbach dros dro:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Cronfa Pwysau'r Gaeaf:**
  Cwrs Hylendid Bwyd ar-lein ar gael fel rhan o'r gronfa hon. Cyng Ceri i sôn wrth aelodau'r CoffiStop.

- **E-Bost: CBSC - Cofrestr Etholwyr 2021-2022:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Cyllid ar gyfer Sefydliadau Cymunedol Llai yng Nghymru:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Cymdeithas Ddinesig Dyffryn Conwy - Cyrsiau byr yn Nyffryn Conwy:**
  Cyng Ceri wedi hysbysebu ar y dudalen Facebook.

- **E-Bost - Cyngor ar Bopeth Cylch Conwy – Gwahoddiad:**
  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Y bwrdd gwybodaeth wrth yr ysgol wedi chwythu i ffwrdd.
- Mrs Eirlys Jones wedi darganfod cofnodion Cyngor Cymuned Eglwys Bach o 1875-1927 – Cyng John Emlyn wedi eu trosglwyddo i Adran Archifdy CBSC.
- Y ffordd o'r Sun i lawr i Ty Gwyn – drain duon a drain eraill yn tyfu i mewn i'r ffordd – Y tir feddianwr sy'n gyfrifol am dorri'r clawdd. Cyng Austin i drafod gyda'r tir feddianwr.
- Canlyniadau technoleg goryrru wrth Glan Aber a Capel Brymbo yn ymyl Ty'n Cae wedi ei derbyn ac o fewn ystod arferol. Dydy CBSC ddim yn teimlo bod angen arwyddion ychwanegol neu marciau ffordd ychwanegol. Cyng Austin wedi cael cwynion am oryrru o Ffordd Bodnant i Graig – am ofyn am dechnoleg goryrru yma hefyd a arwydd 40.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

04/01/22
01/02/22
01/03/22
05/04/22
03/05/22
07/06/22
05/07/22
06/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 o'r gloch.